Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/AJ

07 Mai 2019

Annwyl Mick,

Diolch i chi am eich llythyr ynghylch cymhwyso Rheol Sefydlog 30A.

Fel y gwyddoch, mae'n gonfensiwn sydd wedi'i hen sefydlu na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig heb gydsyniad y Cynulliad. Yn y cyd-destun hwnnw, mae Rheolau Sefydlog 29 a 30A yn nodi gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer rhoi cydsyniad mewn perthynas â darpariaethau mewn Biliau ac Offerynnau Statudol sydd gerbron Senedd y DU, sy'n gwneud darpariaeth sydd naill ai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad neu'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Er bod yna gryn ddibyniaeth ar waith rhynglywodraethol wrth weithredu'r confensiwn yn ymarferol, confensiwn rhyng-Seneddol ydyw yn ei hanfod, gan mai'r Cynulliad sy'n rhoi cydsyniad i Senedd y DU ddeddfu o fewn cymhwysedd y Cynulliad. Adlewyrchir y dimensiwn rhyng-Seneddol hwnnw yn y ffaith bod Clerc y Cynulliad, ers 2013, wedi hysbysu ei swyddogion cyfatebol yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi pan fydd y Cynulliad wedi pasio neu wrthod cynnig cydsyniad, fel bod modd hysbysu Aelodau Seneddol o benderfyniad y Cynulliad drwy'r papur trefn.

Er nad yw Rheol Sefydlog 29 na 30A yn ei gwneud yn ofynnol i aelod o'r Llywodraeth, nac unrhyw un arall, gyflwyno cynnig cydsyniad mewn perthynas â darpariaethau perthnasol mewn unrhyw Fil neu Offeryn Statudol y DU, yr unig ffordd y gellir ceisio, a rhoi, cydsyniad y Cynulliad i'r fath ddarpariaethau yw drwy gyflwyno a phasio cynnig o'r fath. Os na fydd cynnig o'r fath wedi'i ystyried – heb

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

sôn am ei basio – gan y Cynulliad mewn perthynas â darpariaeth berthnasol mewn unrhyw Fil neu Offeryn Statudol y DU, ni ellir dweud bod y Cynulliad wedi rhoi ei gydsyniad i'r ddarpariaeth honno. Byddai'n peri pryder i mi pe bai Senedd y DU yn bwrw ymlaen i ddeddfu o dan yr amgylchiadau hynny, gan y byddai'n ymddangos i mi yn groes i'r confensiwn o beidio â deddfu heb gydsyniad datganedig y Cynulliad.

O ran eich pwynt olaf, cyflwynwyd y ddarpariaeth i Aelod ac eithrio aelod o'r Llywodraeth gyflwyno cynnig cydsyniad yn 2013, ochr yn ochr â dileu'r gofyniad i'r Llywodraeth gyflwyno cynnig mewn perthynas â phob memorandwm a osodir. Cynlluniwyd y weithdrefn i'w defnyddio mewn amgylchiadau pan fydd memorandwm y Llywodraeth yn nodi nad yw'n briodol rhoi cydsyniad ym marn y Llywodraeth, ac mae'n galluogi Aelodau eraill i ddadlau'r safbwynt croes ac i gyflwyno cynnig cydsyniad i'r perwyl hwnnw. Ni ragwelwyd y byddai ei angen mewn sefyllfaoedd pan fo'r Llywodraeth yn cefnogi deddfwriaeth arfaethedig y DU, gan mai'r disgwyliad o dan yr amgylchiadau hynny yw y byddai'r Llywodraeth yn cyflwyno ei chynnig ei hun yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad i'r ddeddfwriaeth fynd rhagddi.

Gobeithio bod hynny'n rhoi eglurder i'r Pwyllgor o ran fy nehongliad o'r Rheolau Sefydlog perthnasol.

Yn gywir,

Elin Jones AC
Llywydd